

## OWEN, WILLIAM ('Gwilym Meudwy ' neu ' Gwilym Glan Lluchwr '; 1841 - 1902), bardd cocos a chrwydryn

**Enw:** William Owen  
**Ffugenw:** Gwilym Meudwy, Gwilym Glan Lluchwr  
**Dyddiad geni:** 1841  
**Dyddiad marw:** 1902  
**Rhiant:** Sarah Owen  
**Rhiant:** William Owen  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd cocos a chrwydryn  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awdur:** Huw Walters

Ganwyd yn Aber Cefni, plwyf Llandybie, Caerfyrddin, 23 Gorffennaf 1841 yn fab i William a Sarah Owen. Hanai'r teulu o Faldwyn a bu'r tad yn wehydd yng Nghil-y-cwm, Llanwrda a Llanymddyfri cyn symud i weithfa wllân Cwmllechwr yn 1836. Yn ôl *Walcyn Wyn* (*Y Diwygiwr*, 1902, t. 262) yr oedd William Owen yn or-ŵyr i **John Owen**, Machynlleth, awdur y gerdd hir *Troedigaeth Atheos*. Prentisiwyd Gwilym Meudwy i saer coed yn ardal y Trap ger Llandeilo yn 1856, ond dychwelodd at ei dad i'r ffatri wllân ymhen tair blynedd. Bu farw ei dad yn 1865 a'i fam yn 1877, a chrwydryn fu Gwilym Meudwy fyth wedyn. Treuliai'r haf yn y ffynhonnau yn Llanwrtyd a Llandrindod, gan ddechyd i ardaloedd Brynaman, Llanelli ac Abertawe dros fisoedd y gaeaf. Ar y pererindodau blynyddol hyn y gwerthai gynnyrch ei awen, a bu'n cadw argraffwyr Aberdâr, Llandeilo, Ystalyfera, Llanelli a Rhydaman yn brysur am gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Cyhoeddwyd tua deunaw o lyfyrnau o'i waith rhwng 1879 ac 1902, a chynnwys y rhain ddefnyddiau amrywiol fel dadleuon dirwestol, ymddiddanion, baledi a mân draethodau, ond fel marwnadwr y gwnaeth y Meudwy enw iddo'i hun. Canodd gerddi coffa i ddegau lawer o hoelion wyth yr enwadau ymneilltuol ac i wleidyddion, yn ogystal â baledi yn coffáu'r rheini a laddwyd mewn damweiniau glofaol. Cyffredin, a dweud y lleiaf, yw ansawdd y cynhyrchion hyn, ond mae'r bardd yn haeddu'i gofio fel un o'r olaf o'i fath yng Nghymru a enillai ei damaid drwy werthu cynnyrch ei awen. Bu farw yn Rhydaman 21 Mehefin 1902 a chladdwyd ef ym meddrod y teulu ym mynwent eglwys y plwyf, Llandybie. Brawd iddo oedd Joseph Pugh Owen a fu'n ysgolfeistr yn Torrington Square, Llundain. Brawd arall oedd John Owen a briododd â chwaer i D. Avan Griffiths, gweinidog Troedrhiwdalar (A), a phlant o'r briodas hon oedd William Pugh Owen a fu'n offeiriad ym Melbourne, Awstralia, a Dr. John Griffith Owen a fu'n feddyg yn Kingston-upon-Thames. Mab i chwaer y rhigymwr oedd Edmund Owen Rees o San Francisco a fu'n Gonswl Prydeinig Nicaragua.

### Awdur

Dr Huw Walters

### Ffynonellau

*Y Casglwr pob peth printiedig*, 8 Awst 1979 (gan gynnwys rhestr o'i weithiau)

G. M. Roberts, *Hanes Plwyf Llandybie*, etc (Caerdydd 1939), 235

*South Wales Guardian*, 21 Awst-11 Medi 1975

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360841

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Walters, H., (1997). OWEN, WILLIAM ('Gwilym Meudwy ' neu ' Gwilym Glan Lluchwr '; 1841 - 1902), bardd cocos a chrwydryn. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c5-OWEN-WIL-1841>

Griffiths

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government